HYBU AC AMDDIFFYN

Yn ogystal â chefnogi'r Frenhines wrth iddi gyflawni'i dyletswyddau brenhinol a gweithredu fel entrepreneur elusennol, mae Tywysog Cymru'n ceisio hybu ac amddiffyn traddodiadau, rhinweddau a rhagoriaeth y genedl. Mae'r gwaith yma'n cynnwys cefnogi cymunedau gwledig Prydain, hybu goddefgarwch a gwell dealltwriaeth rhwng gwahanol ffydd a chymunedau, a thynnu sylw at gyflawniadau neu faterion a allai, heb ei gefnogaeth, gael ychydig iawn o sylw.

TYNNU SYLW AT RAI MATERION

Yn ystod y flwyddyn a aeth heibio, fe aeth Tywysog Cymru ati unwaith eto i geisio hybu ac amddiffyn yr agweddau gorau ar Brydain. Mae'r gwaith yma'n aml yn golygu gweithredu fel catalydd personol wrth geisio cyflawni newidiadau, creu proses o gyd-drafod, neu dynnu sylw at faterion sydd heb gael sylw. Fe wnaiff y Tywysog y gwaith yma drwy gyfrwng ymrwymiadau, seminarau a digwyddiadau, drwy ysgrifennu llythyrau a chynnal cyfarfodydd preifat, a thrwy areithio, ysgrifennu erthyglau a chyfrannu at raglenni teledu a radio.

Cyflawniadau a Gwasanaeth

Bob blwyddyn, mae Ei Uchelder Brenhinol yn llywyddu mewn digwyddiadau sy'n tynnu sylw at gyflawniadau a chyfraniadau at fywyd y genedl a allai, fel arall, gael ychydig iawn o gydnabyddiaeth a sylw. Er enghraifft, ym mis Mehefin 2004, fe arweiniodd y Tywysog dderbyniad yn Highgrove ar gyfer dros 120 o'r dynion a'r gwragedd a fu'n gweithio i wasanaeth Swyddfeydd Post Teithiol y Post Brenhinol. Bu'r Swyddfeydd Post Teithiol yn gwasanaethu Prydain ers bron i 170 o flynyddoedd drwy ddidoli ar drenau dros nos sy'n cario'r post yn bell i ben ei daith. Pan gaeodd y Post Brenhinol y gwasanaeth ym mis Ionawr 2004, fe benderfynodd Ei Uchelder Brenhinol wahodd cynrychiolwyr o griwiau Swyddfeydd i'w gartref i ddiolch iddyn nhw am eu cyfraniad dros y blynyddoedd.

Bu nifer o aelodau'r criwiau'n cydweithio â'i gilydd wrth ddidoli post ers dros 20 mlynedd, gwaith sy'n golygu aros oddi cartref am nosweithiau ar y tro a chreu cyfeillgarwch agos. Wrth dalu teyrnged i'r gweithwyr yn ei araith, fe ddywedodd y Tywysog ei bod hi'n bwysig tynnu sylw at ddiwedd oes y Swyddfeydd Teithiol. Fe ddywedodd: "Fe hoffwn i ddymuno'n dda i'r gweithwyr, a'u llongyfarch ar eu gwaith arbennig iawn wrth gadw'r post yn llifo."

Yn yr un ffordd, fe arweiniodd Ei Uchelder Brenhinol dderbyniad yn Clarence House ym mis Gorffennaf ar gyfer dros 100 o yrwyr tacsis Llundain i ddiolch iddyn nhw, ar ran nifer o elusennau'n arbennig, am eu gwaith a'u cyfraniad at fywyd y Brifddinas. Cyn y derbyniad, fe fu'r Tywysog yn mwynhau cwpanaid o de a sgwrs gyda gyrwyr yn un o lochesau pren Fictoraidd enwog y ddinas. Ar ôl ei hoe i gael te, fe gafodd ei gludo mewn tacsi du'n ôl i'r derbyniad yn Clarence House. Yno, fe ddywedodd Ei Uchelder Brenhinol wrth ei westeion fod eu dull nhw o weithredu'n aml "fel rhyw fath o gyffeswr i wahanol fathau o bobl" wedi gwneud argraff arno. "Mae'n rhaid eich bod chi'n gwneud byd o les i iechyd seicolegol pobl."

Grŵp arall o bobl sy'n cynnig gwasanaeth gwerthfawr i'r genedl, heb lawer o glod, yw'r gweision sifil sy'n gyfrifol am reoli mewnfudo. Rôl yw hon a gafodd fwy a mwy o sylw'n ddiweddar. Y llynedd, bu'r Tywysog yn awyddus iawn i ddiolch i'r bobl sy'n gweithio yn y maes yma, ac fe gafodd gyfle ym mis Tachwedd i ymweld â Chyfarwyddiaeth Fewnfudo a Chenedligrwydd y Swyddfa Gartref yn Lerpwl. Yno, fe gafodd gyfle i gwrdd y staff sy'n delio'n ddyddiol â'r amryw o geisiadau gan y rheini sy'n ceisio dod i Brydain i fyw'n barhaol.

Yn ystod ei ymweliad, fe aeth y Tywysog o gwmpas yr adran gan sgwrsio â'r staff a fu'n sôn wrtho am eu gwaith ac am ei her. Fe gafodd gyfle hefyd i gwrdd aelodau'r staff a wirfoddolodd i helpu ar raglen Rhaglen Tîm *The Prince's Trust* a rhai mentrau cymunedol eraill. Yn ystod yr un ymweliad â Lerpwl, fe gafodd Ei Uchelder Brenhinol gyfle i ymuno â dathliadau pen-blwydd Bartons Pickles yn 100 oed,

gerllaw yn St Helens, Glannau Mersi. Pwrpas yr ymweliad oedd anrhydeddu canrif o ragoriaeth

barhaus – wrth eu crefft a'u busnes o wneud, yn yr achos yma, picls, sawsiau a siytnis. Un ymweliad oedd hwn o'r nifer o'r un math y bydd y Tywysog yn eu gwneud mewn blwyddyn. Mae'n dangos pa mor bwysig yw dathlu mentrau lleol sydd wedi llwyddo i gyflawni ar lwyfan genedlaethol (a rhyngwladol weithiau), a phwysigrwydd traddodiad a pharhad.

Heddiw, mae cwmni Bartons yn cael ei reoli gan bedwaredd genhedlaeth yr un teulu. Fe ddywedodd y Tywysog wrth annerch staff y cwmni: "Mae Bartons yn cynrychioli cymaint o'r agweddau da ar fusnesau bach y wlad yma. Maen nhw'n cynnig yr amrywiaeth a'r natur leol sy'n hanfodol os ydyn ni am osgoi mynd yn unffurf ym mhob ystyr ar y gair."

YMGYRCH DADENI CIG DAFAD (*MUTTON RENAISSANCE)*

YM MIS TACHWEDD 2004, FE LANSIODD Y TYWYSOG YR YMGYRCH DADENI CIG DAFAD (AR Y DDE). NOD YR YMGYRCH YW RHOI HWB I FFERMWYR TEULUOL SY'N BRWYDRO I GAEL PRIS DA AM DDEFAID DROS DDWY FLWYDD OED. Y BWRIAD OEDD GWNEUD CIG DAFAD YN BOBLOGAIDD UNWAITH ETO YN Y CARTREF, AR SILFFOEDD ARCHFARCHNADOEDD AC YM MWYTAI'R WLAD.

BU DIDDORDEB GAN Y TYWYSOG YN Y PWNC ER 2003 PAN AETH I YMWELD Â FFERMWYR RHAN UCHAF DYFFRYN AFON TEES, SWYDD DYRHAM, A FU'N SÔN WRTHO AM BRIS GWAEL EU DEFAID. FLWYDDYN WEDI HYNNY, MEWN CINIO A DREFNODD YN HIGHGROVE I FFERMWYR A PHRIF GOGYDDION AMLWG, FE ARWEINIODD SGWRS AM Y FFORDD ORAU O AILGYFLWYNO CIG DAFAD AT DDECHRAU CYNLLUNIO'R YMGYRCH.

ERS EI LANSIO, BU EFFAITH YMGYRCH DADENI CIG DAFAD YN GADARN. YN ÔL KATHLEEN FEETHAM, FFERM OAKWOOD, SIR AMWYTHIG: "BUON NI'N GWERTHU EIN CIG OEN MEWN MARCHNADOEDD FFERMWYR ERS NIFER O FLYNYDDOEDD AC FE WELSON NI DDIDDORDEB NEWYDD YN DDIWEDDAR. MAE PRIS CIG DAFAD YN CODI'N AWR. FE DDYWEDODD TIM WILSON O'R SIOPAU CIG *GINGER PIG* YN LLUNDAIN: "FLWYDDYN YN ÔL, DIM OND UN CARCAS YR WYTHNOS OEDDEN NI'N EI WERTHU, OND MAE'R NIFER WEDI CODI I SAITH CARCAS NAWR WRTH I GWSMERIAID BWYD DDOD I WYBOD O BLE Y GALLAN NHW GAEL CIG DAFAD DA."

Cymunedau gwledig

Fel ffermwr ei hun, mae'r Tywysog yn ymboeni'n ddwys am gefn gwlad Prydain ac am les y rheini sy'n byw ac yn gweithio ynddo. Mae cynnal sector amaethyddol iach yn hanfodol i'r wlad, nid dim ond am fod y dirwedd a'r dull o'i rheoli'n dibynnu ar y wybodaeth mae cymunedau ffermio wedi'i chasglu dros y canrifoedd, ond hefyd am fod natur gymdeithasol cefn gwlad yn dibynnu ar sylfaen ffermio gadarn.

Fel rhan o benderfyniad Ei Uchelder Brenhinol i gefnogi ffermwyr Prydain, yn arbennig ffermwyr teuluol a rhai'r uwchdiroedd, mae'n pwysleisio y dylai nid yn unig manwerthwyr a gwasanaethau bwyd ddefnyddio ffynonellau lleol, ond cyrff cyhoeddus fel ysgolion hefyd. Ym mis Gorffennaf 2004, fe aeth â grŵp o brif weithredwyr a chyfarwyddwyr addysg awdurdodau lleol a phenaethiaid ysgolion ar ymweliad "A Wêl a Gred" ag Ysgol Brimsham Green ger Bryste i dynnu sylw at yr arfer o ddefnyddio bwyd o ffynonellau lleol ar gyfer prydau bwyd ysgolion.

Fe ddaw'r tatws a'r moron organig y mae'r ysgol yn eu defnyddio o Duchy Home Farm y Tywysog ei hun ar Stad Highgrove. Bu Awdurdod Addysg Lleol Cyngor De Swydd Gaerloyw yn gweithio er 2001 i ddod o hyd i ffynonellau lleol o fwydydd organig. Mae defnyddio bwydydd organig lleol nid yn unig yn gwella ansawdd prydau bwyd ysgolion, ond mae hefyd yn cefnogi busnesau ffermio lleol ac yn lleihau llygredd amgylcheddol drwy dorri ar deithiau wrth gario bwyd i'r ysgolion.

Fe arweiniodd Ei Uchelder Brenhinol ymweliad "A Wêl a Gred" arall â chefn gwlad ym mis Ebrill 2004 pan aeth ag arweinwyr busnesau lleol i gwrdd ffermwyr a chrofftwyr yn Caithness. Rhan o'i ymgyrch i helpu economi lleol un o rannau mwyaf anghysbell Prydain oedd yr ymweliad yma. Roedd yn deillio o astudiaeth ar economi Caithness a wnaeth Ymddiriedolaeth Castell Mai Y Frenhines Elisabeth y mae'r Tywysog yn gweithredu fel ei Llywydd. Galwodd yr astudiaeth am fwy o gydweithredu rhwng asiantaethau datblygu, ffermwyr lleol a'r gymuned fusnes.

Un o argymhellion astudiaeth Caithness oedd codi proffil nwyddau o ffermydd lleol drwy hybu "brand" rhanbarthol hawdd ei adnabod. Roedd yr un syniad ar raglen ymweliad arall a wnaeth y Tywysog â chefn gwlad pan deithiodd i Barc Cenedlaethol Ardal y Peaks i hybu amrywiaeth a'r defnydd o ffynonellau lleol o gynnyrch. Yn ystod yr ymweliad ym mis Chwefror 2005, fe gafodd Ei Uchelder Brenhinol gyfle i gwrdd ffermwyr lleol sy'n bwriadu sefydlu menter gydweithredol i hybu eu cynnyrch. Y meddylfryd sydd wrth wraidd y fenter newydd yw helpu i sefydlu safon ar gyfer cynnyrch lleol a

chaniatáu i ffermwyr llaeth fanteisio ar farchnadoedd ffermwyr lleol y trefi a'r dinasoedd ar draws Prydain. Mae'r marchnadoedd yma'n dod i dalu mwy a mwy o hyd a bu'r Tywysog yn eu cefnogi ers nifer o flynyddoedd.

Mae cynnig tai fforddiadwy i deuluoedd cymunedau gwledig yn agwedd arall ar gefn gwlad y mae'r Tywysog wedi ymgyrchu arni'n gyson. Yn 2004-05, fe lansiodd ddau lawlyfr oedd yn cynnig cyngor ymarferol i gymunedau ar y pwnc. Menter Tai Gwledig Fforddiadwy Tywysog Cymru (*The Prince of Wales's Rural Housing Initiative*) oedd yn cyhoeddi'r llawlyfrau. Fe gafodd y Fenter ei sefydlu yn 2003 fel partneriaeth rhwng rhai o'r unigolion a'r mudiadau mwyaf dylanwadol yn y maes yma, yn cynnwys Dug Westminster, Busnes yn y Gymuned, yr Asiantaeth Cefn Gwlad a'r Gorfforaeth Dai.

Cred y Tywysog yw fod busnesau, os ydyn nhw'n berchnogion tir, yn rhai sy'n cynnig gwasanaethau lleol, yn adeiladwyr tai neu'n fuddsoddwyr preifat, mewn lle delfrydol i gynnig yr adnoddau a'r arbenigedd ar ffurf yr help ychwanegol mae ar ardaloedd gwledig ei angen. Wrth lansio'r Fenter yn Clarence House, fe alwodd Ei Uchelder Brenhinol ar i gwmnïau drawsnewid eiddo gwag, fel fflatiau gwag uwchben siopau, yn gartrefi wedi'u prisio'n rhesymol.

Bu'r Tywysog yn ymboeni ers peth amser am allu ffermwyr i ddysgu sgiliau a thechnegau marchnata newydd er mwyn addasu'n well i ofynion newidiol y marchnadle. Gan gofio hyn, roedd yn falch iawn o gael cwrdd ym mis Rhagfyr â rhoddwyr, gwirfoddolwyr a phobl ifanc y Gwasanaethau Cefnogi Dyffrynnoedd Uwch Afon Tees (*Upper Teesdale Support Services*) yn Middleton, Swydd Dyrham. Roedd Ei Uchelder Brenhinol yn agor pencadlys newydd y ganolfan yn swyddogol. Mae'r pencadlys yn cynnig cefnogaeth a chyngor i'r gymuned leol, cyfleoedd hyfforddi fel cyrsiau mewn codi waliau cerrig, trin tractor neu gneifio defaid, ac mae canolfan galw heibio yno i bobl ifanc hefyd.

Yn ogystal â chyflawni ymweliadau sydd â'r nod o dynnu sylw at ymgyrchoedd a materion penodol fel y defnydd o ffynonellau lleol, tai fforddiadwy a datblygu sgiliau, fe aeth y Tywysog ar nifer o deithiau eraill i ardaloedd gwledig ar draws y wlad yn ystod y flwyddyn. Roedd y rhain yn cynnwys ei ymweliad cyntaf â Sioe Frenhinol Norfolk yn Nwyrain Anglia ym mis Mehefin 2004, a chyflwyniad arbennig ym mis Tachwedd i gyflwyno gwobr Cymuned Albanaidd y Flwyddyn i Ynys Whithorn.

Roedd ei ymweliadau â Chymru'n ystod 2004-05 yn cynnwys ymweliad â Sioe Amaethyddol Frenhinol Cymru yn Llanfair-ym-muallt, dathliadau Jiwbilî Aur Coleg Garddwriaethol Cymru yn Sir y Fflint, seremoni blasu whisgi ym Mhenderyn i roi cyhoeddusrwydd i adfywiad y whisgi Cymreig cyntaf mewn dros 100 mlynedd, ac ymweliad â Llansteffan, lle geni Dylan Thomas, er mwyn nodi'r 50 mlynedd ers marwolaeth y bardd o Gymro.

Ffydd a Chymunedau Ethnig

Bob blwyddyn, fe gaiff y Tywysog gyswllt rheolaidd â'r Eglwys yn Lloegr, yn cynnwys cyfarfodydd ag Archesgob Caergaint ac esgobion eraill. Ym mis Tachwedd 2004, fe aeth Ei Uchelder Brenhinol drwy wahoddiad yr Archesgob i annerch grŵp o ryw 30 o esgobion Anglicanaidd ym Mhalas Lambeth yn Llundain. Gwirfoddoli a gwaith elusennol oedd pwnc ei araith. Ar ôl rhoi ei farn bersonol ar rôl elusennau yn yr oes fodern, fe gyflwynodd Ei Uchelder Brenhinol nifer o gynrychiolwyr ei elusennau ei hun er mwyn esbonio'u gwaith i'r esgobion.

Yn ogystal â mynd yn rheolaidd i wasanaeth y Saboth, mae'r Tywysog yn ymweld â nifer o eglwysi cadeiriol ac eglwysi eraill drwy gydol y flwyddyn. Er enghraifft, fe aeth ym mis Tachwedd i wasanaeth yn Eglwys Gadeiriol Rochester yng Nghaint i ddathlu pen-blwydd yr eglwys yn 1,400.

Mae'r Tywysog wedi bod â diddordeb arbennig mewn Islam ers nifer o flynyddoedd. Fe gafodd ei anrhydeddu ym mis Mehefin 2004 â dyfarniad am ei waith wrth hybu gwell dealltwriaeth rhwng y byd Islamaidd a'r Gorllewin. Fe gyflwynodd Swltan Brunei Wobr Ryngwladol Swltan Hassanal Bolkiah iddo mewn seremoni yn Llundain. Fe ddywedodd y Swltan i'r Tywysog fod yn "ddiflino" wrth annog pobl ddylanwadol i gynnal ac ymestyn y ddeialog rhwng Mwslimiaid a'r Gorllewin. "Fe lwyddodd eich ymdrechion chi i wneud i lawer o bobl, er gwaethaf yr amgylchiadau presennol, gynnal eu hymrwymiad i achos heddwch," meddai'r Swltan wrtho.

Wrth dderbyn y dyfarniad a'r wobr o £42,000 fyddai'n mynd i Ysgol Gelfyddyd Draddodiadol y Tywysog, fe ddywedodd y Tywysog: "Mae'n hawdd dal i feddwl am y degawd diwethaf fel un o gynnydd mewn gwrthdaro, diffyg goddefgarwch a pholareiddio… Mae llawer i'w gweld yn dadlau ein bod ni y tu hwnt i ddealltwriaeth. Iddyn nhw, mae deialog ar ben ac mae angen i ni greu cylch o wagenni ein diwylliant ein hunain gan eithrio rhai eraill. Allwn i ddim anghytuno â nhw mwy." Fe ddywedodd y Tywysog ei fod yn credu bod angen addysg, dealltwriaeth a'r gallu i feddwl yn gadarnhaol fel sylfaen i ddeialog effeithiol rhwng y ddwy gymuned. Fe alwodd am ddathlu traddodiadau cyffredin ac amrywiaethau'r ddau wareiddiad.

Fe ailadroddodd Ei Uchelder Brenhinol ei alwad am well dealltwriaeth rhwng ffydd mewn digwyddiad yn Neuadd Frenhinol Albert yn Llundain ym mis Medi 2004 i ddathlu pen 400 mlynedd ers darlleniad cyntaf yr Ysgrythurau Sanctaidd Sikh. Rhwydwaith y Mudiadau Sikh a drefnodd yr achlysur. Yn ei araith i gynulleidfa o 5,000 tynnodd y Tywysog sylw at y ffordd y mae'r llyfrau cysegredig yn pwysleisio gwerth parchu eraill. Fe ddywedodd: "Cefais fy swyno'n arbennig gan y ffaith fod llawer o'r hyn roedd yn cael ei ddweud, er enghraifft goddef a pharchu eraill, fel petai'n cyd-fynd â'r farn rwyf i wedi bod yn ceisio'i datgan dros yr 20 mlynedd diwethaf neu ragor."

Fe aeth cynrychiolwyr sawl ffydd a gwahanol gymunedau i'r digwyddiad, yn cynnwys Y Prif Rabi Dr Jonathan Sacks, Esgob Llundain Y Gwir Barchedig Richard Chartres, a Chadeirydd y Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol, Trevor Phillips. Fe gafodd neges gan y Frenhines ei darllen i'r gynulleidfa hefyd wrth iddi dymuno'n dda i'r digwyddiad.

"Mae'n hawdd dal i feddwl am y degawd diwethaf fel un o gynnydd mewn gwrthdaro, diffyg goddefgarwch a pholareiddio… Mae llawer i'w gweld yn dadlau ein bod ni y tu hwnt i ddealltwriaeth. Iddyn nhw, mae deialog ar ben ac mae angen i ni greu cylch o wagenni ein diwylliant ein hunain gan eithrio rhai eraill. Allwn i ddim anghytuno â nhw mwy."
Tywysog Cymru, 2004

EI SANCTEIDDRWYDD Y DALAI LAMA

BU'R BROSES O ANNOG PRYDAIN I DDANGOS GODDEFGARWCH O FFYDD A CHYMUNEDAU ERAILL YN NODWEDD O WAITH Y TYWYSOG ERS AMSER. YM MIS MAI, FE DDAETH EI SANCTEIDDRWYDD Y DALAI LAMA I CLARENCE HOUSE AR WAHODDIAD Y TYWYSOG AR GYFER DERBYNIAD AR GYFER AELODAU'R GYMUNED TIBETAIDD YM MHRYDAIN A RHAI MUDIADAU CYSYLLTIEDIG.

HWN OEDD Y TRYDYDD TRO I'R TYWYSOG GWRDD ARWEINYDD YSBRYDOL ALLTUD TIBET A BU'R TYWYSOG YN FRWD EI GEFNOGAETH I YMDRECHION Y DALAI LAMA I DDOD O HYD I FFORDD HEDDYCHLON O DDATRYS TENSIYNAU POLITICAIDD YR ARDAL. FE DDAETH TUA 50 O AELODAU'R GYMUNED TIBETAIDD I'R DIGWYDDIAD GYDA NIFER O FUDIADAU ANLLYWODRAETHOL SY'N YMWNEUD Â THIBET. NOD Y TYWYSOG WRTH ARWAIN Y DERBYNIAD OEDD CODI PROFFIL Y GYMUNED TIBETAIDD YM MHRYDAIN A CHYNNIG CYFLE I DRIGOLION ALLTUD Y WLAD GWRDD Y DALAI LAMA. FE DDISGRIFIODD UN O'R CERDDORION TIBETAIDD A FU'N PERFFORMIO YN Y DERBYNIAD Y DIGWYDDIAD FEL UN ARBENNIG IAWN I'W CHYMUNED HI. FE DDYWEDODD TSERING PASSANG, 29, SY'N BYW YN LLUNDAIN: "MAE'R TYWYSOG YN DANGOS LLAWER O GYDYMDEIMLAD Â NI. MAE LLAWER O DIBETIAID YN DDIOLCHGAR IAWN IDDO. MAE'N ACHLYSUR ARBENNIG IAWN PAN FO EI UCHELDER BRENHINOL YN CWRDD EI SANCTEIDDRWYDD.